GIG CYMRU NHS WALES
Partneriaeth Cydwasanaethau
Gwasanaethau Cyflogaeth
Shared Services Partnership
Employment Services

# Cylchlythyr Deintyddol WNWRS

## Hydref 2024

# System Adrodd Genedlaethol y Gweithlu Cymru (WNWRS)

## Diolch!

Rydym am achub ar y cyfle hwn i ddweud DIOLCH mawr iawn i bob Arweinydd Practis sydd wedi mewnbynnu data i WNWRS. Mae eich ymdrechion a'ch diwydrwydd wedi golygu ein bod wedi llwyddo i gyflawni'r canlynol:

- Mae gan 100% o Bractisiau Deintyddol yng Nghymru ddata ar y WNWRS.
- Mae 92% o Bractisiau Deintyddol yng Nghymru wedi gweld eu data.

Edrychwn ymlaen at weithio gyda chi i gynnal a gwella eich data dros y misoedd nesaf. Bydd y casglu data nesaf yn digwydd – 31 Rhagfyr 2024. Anfonir e-bost ar wahân gyda chyfarwyddiadau i'r holl Bractisiau ar y camau nesaf.



## Ansawdd Data – Syniadau ac Awgrymiadau

Mae llawer o Bractisiau Deintyddol yn ymgorffori'r WNWRS fel rhan o'u prosesau ymsefydlu a gadael, felly caiff ei ddiweddaru cyn gynted ag y bydd aelodau staff yn cyrraedd neu'n gadael y practis. Mae gan bractisiau eraill nodiadau atgoffa misol neu chwarterol i ddilysu eu data. Sicrhewch fod gennych yr holl wybodaeth orfodol cyn creu cofnod staff gan gynnwys Rhif YG, Rhif Cofrestru (Clinigol yn Unig), Dyddiad Geni, Math o Gontract ac Oriau Gwaith/Oriau dan Gontract.

## Arolwg o Gynhwysiant a Pherthyn y Gweithlu Gofal Sylfaenol

Bydd yr arolwg hwn yn rhoi'r cyfle cyntaf i holl staff fferylliaeth, deintyddiaeth, practis cyffredinol ac optometreg yng Nghymru rannu sut beth yw gwaith iddynt. Dewch â'r arolwg hwn at sylw'r staff yn eich practis drwy rannu'r Cod QR. Mae'r arolwg yn cau ar 31 Hydref 2024 ac mae'n ddienw a gellir ei gwblhau drwy Dysgu@Cymru.

## Arweinydd Practis WNWRS

Os bydd eich Practis yn newid Arweinydd WNWRS neu os ydych yn gadael eich rôl, anfonwch e-bost at dentalworkforce.pccs@wales.nhs.uk cyn gynted â phosibl gan nodi'r dyddiad rydych yn gadael a manylion yr unigolyn sy'n cymryd eich lle os oes gennych yr wybodaeth yma. Yn yr un modd, os bydd eich manylion cyswllt yn newid, rhowch wybod i ni, fel y gallwn ddiweddaru ein cofnodion yn unol â hynny.

Rydym wedi croesawu'r cyfle i gwrdd â chi drwy ein sesiynau ar-lein. Os ydych yn Arweinydd Practis newydd neu os hoffech glywed mwy am WNWRS, cysylltwch â ni i ymuno ag un o'n sesiynau ymgyfarwyddo. Gallwn hefyd fynychu cyfarfodydd grŵp yn bersonol neu ar Teams, felly cysylltwch â ni.

Os oes gennych unrhyw ymholiadau, mae croeso ichi gysylltu â ni:

Ffôn: 02921 500544
E-bost: dentalworkforce.pccs@wales.nhs.uk